Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Welcome!
You are now registered with us

Now that you're registered with us, you have some responsibilities and things you'll need to know.

We have some resources and guidance to help you.
You'll be able to find more information on the things you'll need to know and do to stay on the Register here.

Registration essentials:
socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Registration-essentials-Summer-2020.pdf

Registration pages:
socialcare.wales/registration

View this video for further information

enquiries@socialcare.wales
0300 303 3444

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Welcome to the Register

A very warm welcome to our Register of Social Care Workers. I hope you will value this recognition of the vital role you play in our society, providing care and support to people in Wales.

This welcome pack contains information about your registration including the importance of the Code of Professional Practice, and what you need to do to maintain your place on the Register.

Registration reflects the importance of social care. It shows that, like other regulated professions such as teachers and nurses, working in social care is a valued and respected role that contributes to Wales and its people. That has never been more evident than in recent times, and I want to take this opportunity to thank you for everything you have done during the pandemic and the challenges it has brought.

One of the main benefits of registration is providing reassurance to those who receive care and support. They know those who support them are registered, follow a clear set of standards and can be subject to action if they do not meet those expectations. But for you and your colleagues, registration also means you can demonstrate with pride that you have the skills and knowledge to practise safely, effectively and that you are committed to the delivery of the highest standards of care to people using services. It also opens up support for your professional development, and gives you access to the latest information and news. As the Register grows, we're also committed to providing you with greater online materials, access to networks and to involve you more in how we operate.

I am delighted that you have joined the 50,000 workers currently registered to work in our social care services, and thank you for the work you do to support the people of Wales.

David Pritchard, Director of Regulation and Registrar

Keeping your details up to date

Your responsibility to update your registration details

It is your responsibility to keep your details up to date. Your email address is the key to our contact with you. You must keep your current employment details up to date to enable you to practise. We need your current contact details so we can send you a reminder when your annual fee and renewal are due. Failure to notify us of changes to your personal details could result in a referral to our fitness to practise team. We will also send you information, invitations to forums and ask you to take part in consultations.

Changes you **must** tell us about:

- contact details, including personal email addresses, home address and mobile number
- change to your employment such as job title, managing a different service, work address
- any change to your criminal record or your disciplinary record
- any change to your health that affects your work in social care
- registration with another regulatory body, for example the **NMC**
- change of name or title – you should register in the name you are known by at work so that people will be able to recognise you on the Register.

What evidence is required?	
Change	Document
Name change	A verified photocopy of your certificate of marriage, civil partnership, or deed poll

How to tell us

You can see and amend your registration details online through SCWonline. Documentary evidence of a change can be scanned and uploaded through **SCWonline**. Why not check your details are up to date when you update your CPD record?

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Paying your fees

Registration fees

Direct debit

Most people find it easier to pay by direct debit as it is a reliable and secure way to always pay your registration fee on time. To set up a direct debit, log in to your **SCWonline** account, open the 'My Registration' menu and select 'Set up a direct debit'.

Annual fee

Your annual registration fee will be due every year on the anniversary of your registration date. We will send a reminder to your registered email address, so it is important to keep these up to date. The annual fee will not be refunded if you leave the Register part-way through a year. Failure to pay your annual fee will result in your registration lapsing and your name being removed from the Register.

Renewal

Registration is for up to three years. Every three years you will be invited to renew your registration and pay your renewal fee. How to renew your registration is explained elsewhere in this guide.

You can **request removal from the Register** at any time if you are no longer in a role where registration is required.

If you let your registration lapse by not applying to renew and **without requesting removal**, your name will be removed from the Register. Any outstanding fee will be payable when you apply to return to the Register, as well as the application fee.

In **SCWonline** you can:

- see and print your payment record
- set up a direct debit
- make a new payment
- email yourself receipts for the payments you have made

You can find more information about the registration fees on our website at **socialcare.wales/registration/fees**

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Continuing professional development (CPD)

What is CPD?

All registered persons must complete 15 days or 90 hours of training and learning within each three-year registration period. You must keep a record of this training and learning, you can do this by logging in to your SCWonline account and adding entries any time you complete relevant training or learning. If you are employed, talk about your training with your manager. Start recording CPD and collecting your portfolio of evidence as soon as possible after you register.

You can add an entry into your SCWonline CPD record at any time.

You should start to do this as soon as possible after you become registered and keep your record up to date.

Remember to keep a portfolio of evidence. One day of training and learning counts as six hours.

What counts as CPD?

CPD can include study, training, courses, work-based learning, seminars, reading, teaching, case studies or other activities which could reasonably be expected to advance the social care worker's professional development, or contribute to the development of the profession as a whole.

Useful information about what to record and how to record it can be found in:

- SCWonline CPD help.
- How to meet the Continuing professional development (CPD) requirements for registered social workers and social care workers.

When we asked you about adding CPD to your SCWonline, you told us:

Great website. The renewal form was very simple and CPD easy to add!

Being able to update training courses as we go along will make re-registration much simpler.

Entering CPD is now much easier.

CPD record is an excellent way of keeping all training/development up to date.

The online training profile is excellent as it holds this type of info in one place making it easily accessible.

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Renewing your registration

Your registration lasts for three years.

Renewal of registration is not automatic. You will need to apply to renew in SCWonline and you will need to show us that you continue to meet our criteria for working in social care, just as you did when you first registered.

We will only renew your registration if:

- you have fulfilled any conditions attached to your registration
- you provide evidence of your continued:
  - unimpaired fitness to practise
  - character and competence
  - good conduct
  - physical and mental fitness to practise in social work or the field of social care work in which you wish you to work
  - competency
- you provide evidence that you have completed 90 hours or 15 days of CPD within your current registration period. You will need to show what CPD you have undertaken and how it has contributed to your practice
- you have completed any training requirement and provide evidence of your qualification
- you have paid your registration fees.

How to renew your registration

We will use your registered contact details to send you a registration renewal reminder before your registration period is due to end. You must complete your renewal form and send us your training record (CPD) online through your SCWonline. You must send us a complete renewal application at least 21 days before your due date to maintain your registration.

You can find detailed information about renewal on our website at: How to renew your registration.

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

How we deal with concerns

The Code of Professional Practice for Social Care

The Code of Professional Practice for Social Care (the Code) sets the standards, or rules, for all care professionals and social work students in Wales.

It gives criteria to guide your practice and clarity about the standards of conduct you are expected to meet.

You are responsible for making sure you work to these standards at all times and that no action or omission on your part harms the well-being of individuals.

We will take account of the Code in considering issues of fitness to practise and will investigate any alleged breach of the Code.

You confirmed you have read and understood the Code as part of your registration. The Code and links to the mobile app are on our website.

Social care workers must:

1. Respect the views and wishes, and promote the rights and interests, of individuals and carers.
2. Strive to establish and maintain the trust and confidence of individuals and carers.
3. Promote the well-being, voice and control of individuals and carers while supporting them to stay safe.
4. Respect the rights of individuals while seeking to ensure that their behaviour does not harm themselves or other people.
5. Act with integrity and uphold public trust and confidence in the social care profession.
6. Be accountable for the quality of your work and take responsibility for maintaining and developing knowledge and skills.
7. In addition to sections 1-6, if you are responsible for managing or leading staff, you must embed the Code in their work.

Fitness to practise

Fitness to practise – what does it mean?
Fitness to practise means that a worker has the skills, knowledge, competence and appropriate
character needed to practise in the social care sector.

We will investigate any cases where a registered person's fitness to practise is called into question. This may include incidences where a registered person's behaviour has a negative impact on the well-being and safety of an individual or the profession. This may include matters not directly related to professional practice.

Fitness to practise panels

Normally, fitness to practise hearings are held in public.

What information is on our website about fitness to practise?

Our website features information about warnings, undertakings and removals by agreement with our fitness to practise officers. It also features sanctions and outcomes of our fitness to practise hearings. socialcare.wales/fitness-to-practise

Details of the outcome of public hearings are published on our website for a set period of time under hearing outcomes socialcare.wales/upcoming-hearing-list

After a sanction has expired, the reasons are removed from the website but the decision remains indefinitely.

You can find more information about fitness to practise at socialcare.wales/fitness-to-practise

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Croeso!
Rydych bellach wedi cofrestru gyda ni

Nawr eich bod wedi cofrestru gyda ni, mae gennych rai cyfrifoldebau a phethau y bydd angen i chi wybod.

Mae gennym rai adnoddau a chanllawiau i'ch helpu. Byddwch yn gallu dod o hyd i fwy o wybodaeth am y pethau y bydd angen i chi wybod a'u gwneud i aros ar y Gofrestr fan hyn.

Hanfodion cofrestru:
gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Hanfodion-Cofrestru-Haf-2020.pdf

Tudalennau cofrestru:
gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru

Gwyliwch y fideo hwn am fwy o wybodaeth

ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru
0300 303 3444

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Croeso i'r Gofrestr

Croeso cynnes iawn i chi i'n Cofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol. Gobeithio y byddwch yn gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth hon o'ch rôl hanfodol yn ein cymdeithas, drwy ddarparu gofal a chymorth i bobl yng Nghymru.

Mae'r pecyn croeso hwn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'ch cofrestriad, gan gynnwys pwysigrwydd y Côd Ymarfer Proffesiynol a beth sydd angen i chi ei wneud i gadw eich lle ar y Gofrestr.

Mae cofrestru yn adlewyrchu pwysigrwydd gofal cymdeithasol. Mae'n dangos, fel galwedigaethau eraill sy'n cael eu rheoleiddio, fel athrawon a nyrsys, bod gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn rôl sy'n cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu ac sy'n cyfrannu at Gymru a'i phobl. Mae hynny wedi bod yn amlycach nag erioed yn ddiweddar, a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am bopeth rydych chi wedi'i wneud yn ystod y pandemig a'i heriau.

Un o brif fanteision cofrestru yw rhoi tawelwch meddwl i'r rheiny sy'n derbyn gofal a chymorth. Maen nhw'n gwybod bod y rheiny sy'n rhoi cymorth iddyn nhw wedi'u cofrestru, yn dilyn set glir o safonau a gallan nhw fod yn destun gweithredu os nad ydyn nhw'n bodloni'r disgwyliadau hynny. Ond i chi a'ch cydweithwyr, gall cofrestru hefyd olygu y gallwch ddangos gyda balchder bod gennych y sgiliau a'r wybodaeth i ymarfer yn ddiogel, yn effeithiol a'ch bod wedi ymrwymo i gyflawni'r safonau gofal uchaf i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae hefyd yn agor y drws i gymorth gyda'ch datblygiad proffesiynol, ac yn rhoi mynediad i chi i'r wybodaeth a'r newyddion diweddaraf. Wrth i'r Gofrestr dyfu, rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i gynnig mwy o ddeunyddiau i chi ar-lein, mynediad i rwydweithiau a'ch cynnwys mwy yn y ffordd rydyn ni'n gweithredu.

Rwy'n falch iawn eich bod wedi ymuno â'r 50,000 o weithwyr sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd i weithio yn ein gwasanaethau gofal cymdeithasol, a diolch i chi am y gwaith rydych chi'n ei wneud i gefnogi pobl Cymru.

Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Chofrestrydd

Cadw eich manylion yn gyfoes

Eich cyfrifoldeb i ddiweddaru eich manylion cofrestru

Eich cyfrifoldeb chi yw cadw eich manylion yn gyfoes. Mae eich cyfeiriad e-bost yn allweddol er mwyn i ni allu cysylltu â chi. Rhaid i chi gadw manylion eich cyflogaeth gyfredol yn gyfoes i'ch galluogi i ymarfer. Mae angen eich manylion cyswllt cyfredol arnom fel y gallwn anfon nodyn atgoffa atoch pan fydd eich ffi flynyddol a'ch adnewyddiad yn ddyledus. Gallai methu â rhoi gwybod i ni am newidiadau i'ch manylion personol arwain at atgyfeiriad i'n tîm addasrwydd i ymarfer. Byddwn hefyd yn anfon gwybodaeth a gwahoddiadau atoch i fforymau ac yn gofyn i chi gymryd rhan mewn ymgynghoriadau.

Newidiadau y mae'n **rhaid** i chi roi gwybod i ni amdanyn nhw:

- manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost, cyfeiriad cartref a rhif ffôn symudol
- newid i'ch cyflogaeth fel teitl swydd, rheoli gwasanaeth gwahanol, cyfeiriad gwaith
- unrhyw newid i'ch cofnod troseddol neu eich cofnod disgyblu
- unrhyw newid i'ch iechyd sy'n effeithio ar eich gwaith mewn gofal cymdeithasol
- wedi cofrestru gyda chorff rheoleiddio arall, er enghraifft yr **NMC**
- newid enw neu deitl – dylech gofrestru yn yr enw rydych yn cael eich adnabod yn y gwaith fel y bydd pobl yn gallu eich adnabod ar y Gofrestr.

Pa dystiolaeth sydd ei hangen:	
Newid	Dogfen
Newid enw	Llungopi wedi'i ddilysu o'ch tystysgrif priodas, partneriaeth sifil, neu weithred newid enw

Sut i ddweud wrthym

Gallwch weld a diwygio eich manylion cofrestru ar-lein drwy GCCarlein. Gellir sganio a lanlwytho tystiolaeth ddogfennol o unrhyw newid drwy GCCarlein. Beth am wirio bod eich manylion yn gyfoes pan fyddwch yn diweddaru eich cofnod DPP?

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Talu eich ffioedd

Ffioedd cofrestru

Debyd uniongyrchol

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei chael hi'n haws talu drwy ddebyd uniongyrchol gan ei bod yn ffordd ddibynadwy a diogel o dalu'ch ffi cofrestru yn brydlon. I greu debyd uniongyrchol, dylech fewngofnodi i'ch cyfrif GCCarlein, agor y ddewislen 'Fy nghofrestriad' a dewiswch 'Creu debyd uniongyrchol'.

Ffi flynyddol

Bydd eich ffi gofrestru yn ddyledus bob blwyddyn – a hynny'n union flwyddyn i'ch dyddiad cofrestru. Byddwn yn anfon nodyn atgoffa i'ch cyfeiriad e-bost cofrestredig, felly mae'n bwysig cadw'r rhain yn gyfoes. Ni fydd y ffi flynyddol yn cael ei had-dalu os byddwch yn gadael y Gofrestr yn ystod y flwyddyn. Bydd methu â thalu eich ffi flynyddol yn arwain at ddod â'ch cofrestriad i ben a bydd eich enw yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr.

Adnewyddu

Mae'r cofrestriad am hyd at dair blynedd. Bob tair blynedd, byddwch yn cael eich gwahodd i adnewyddu eich cofrestriad ac i dalu eich ffi adnewyddu. Esbonnir sut i adnewyddu eich cofrestriad mewn man arall o'r canllaw hwn.

Gallwch **ofyn i gael eich tynnu oddi ar y Gofrestr** unrhyw bryd os nad ydych bellach mewn rôl lle mae angen cofrestru.

Os byddwch yn gadael i'ch cofrestriad ddod i ben drwy beidio â gwneud cais i adnewyddu a **heb ofyn am dynnu eich enw**, caiff eich enw ei dynnu oddi ar y Gofrestr. Bydd unrhyw ffi sy'n weddill yn daladwy pan fyddwch yn gwneud cais i ddychwelyd i'r Gofrestr, yn ogystal â'r ffi am wneud cais.

Yn **GCCarlein** gallwch:

- weld ac argraffu eich cofnod talu
- creu debyd uniongyrchol
- gwneud taliad newydd
- e-bostio eich hun gyda'r derbynebau am daliadau rydych wedi'u talu

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y ffioedd cofrestru ar ein gwefan
gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/ffioedd

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Beth yw DPP?

Rhaid i bob person cofrestredig gwblhau 15 diwrnod neu 90 awr o hyfforddiant a dysgu o fewn y cyfnod cofrestru tair blynedd. Rhaid i chi gadw cofnod o'r hyfforddiant a'r dysgu yma, gallwch wneud hynny drwy fewngofnodi i'ch cyfrif GCCarlein ac ychwanegu cofnodion unrhyw bryd y byddwch yn cwblhau hyfforddiant neu ddysgu perthnasol. Os ydych yn gyflogedig, siaradwch am eich hyfforddiant gyda'ch rheolwr. Dechreuwch gofnodi DPP a chasglu eich portffolio o dystiolaeth cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gofrestru.

Gallwch ychwanegu at eich cofnod DPP ar GCCarlein unrhyw bryd.

Dylech ddechrau gwneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gofrestru a chadw'ch cofnod yn gyfredol.

Cofiwch gadw portffolio o dystiolaeth. Mae un diwrnod o hyfforddiant a dysgu yn cyfri fel chwe awr.

Beth sy'n cyfri fel DPP?

Gall DPP gynnwys astudio, hyfforddi, cyrsiau, dysgu seiliedig ar waith, seminarau, darllen, addysgu, astudiaethau achos neu weithgareddau eraill y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddyn nhw hybu datblygiad proffesiynol y gweithiwr gofal cymdeithasol, neu gyfrannu at ddatblygiad y proffesiwn cyfan.

Ceir gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r hyn i'w gofnodi a sut i'w gofnodi yn:

- Cymorth DPP ar GCCarlein.
- Sut i fodloni gofynion DPP ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig.

Pan wnaethom ofyn i chi am ychwanegu DPP at eich GCCarlein, dyma wnaethoch chi ei ddweud:

Gwefan wych. Roedd y ffurflen adnewyddu yn syml iawn a'r DPP yn hawdd i'w ychwanegu!

Mae cofnodi DPP yn llawer haws erbyn hyn.

Mae cofnod DPP yn ffordd wych o gadw pob hyfforddiant/datblygiad yn gyfoes.

Mae gallu diweddaru cyrsiau hyfforddi wrth i ni fynd ymlaen yn gwneud y broses o ailgofrestru yn llawer symlach.

Mae'r proffil hyfforddi ar-lein yn wych gan ei fod yn cadw'r math yma o wybodaeth mewn un lle sy'n golygu ei fod yn hawdd cael mynediad ato.

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Adnewyddu eich cofrestriad

Mae eich cofrestriad yn para am dair blynedd.

Nid yw'r cofrestriad yn adnewyddu'n awtomatig. Bydd angen i chi wneud cais i adnewyddu yn GCCarlein a bydd angen i chi ddangos i ni eich bod yn parhau i fodloni ein meini prawf ar gyfer gweithio mewn gofal cymdeithasol, fel y gwnaethoch wrth gofrestru am y tro cyntaf.

Byddwn ond yn adnewyddu eich cofrestriad os:

- rydych wedi cyflawni unrhyw amodau sydd ynghlwm â'r cofrestriad
- rydych yn darparu tystiolaeth o'ch:
  - addasrwydd i ymarfer heb ei amharu
  - cymeriad a chymhwysedd
  - ymddygiad da
  - addasrwydd corfforol a meddyliol i ymarfer mewn gwaith cymdeithasol neu'r maes gofal cymdeithasol rydych yn dymuno gweithio ynddo
  - cymhwysedd
- rydych yn darparu tystiolaeth eich bod wedi cwblhau 90 awr neu 15 diwrnod o DPP o fewn eich cyfnod cofrestru cyfredol. Bydd angen i chi ddangos pa DPP sydd wedi'i gyflawni a sut mae wedi cyfrannu at eich ymarfer
- rydych wedi cwblhau eich gofynion hyfforddi a darparu tystiolaeth o'ch cymhwyster
- rydych wedi talu eich ffioedd cofrestru.

Sut i adnewyddu eich cofrestriad

Byddwn yn defnyddio eich manylion cyswllt cofrestredig i anfon nodyn atgoffa atoch ynglŷn ag adnewyddu'r cofrestriad cyn y daw eich cyfnod cofrestru i ben. Rhaid i chi gwblhau eich ffurflen adnewyddu ac anfon eich cofnod DPP ar-lein drwy eich GCCarlein. Rhaid i chi anfon cais adnewyddu cyflawn atom o leiaf 21 diwrnod cyn eich dyddiad dyledus er mwyn cynnal eich cofrestriad.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanwl am adnewyddu ar ein gwefan yn: Sut i adnewyddu eich cofrestriad.

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Sut rydyn ni'n delio â phryderon

Y Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol

Mae'r Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol (y Côd) yn nodi'r safonau, neu'r rheolau, i holl weithwyr gofal proffesiynol a myfyrwyr gwaith cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'n rhoi meini prawf i lywio eich ymarfer ac eglurder ynglŷn â'r safonau ymddygiad y disgwylir i chi eu bodloni.

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn gweithio i'r safonau hyn bob amser ac nad oes unrhyw gamau neu anwaith ar eich rhan yn niweidio llesiant unigolion.

Byddwn yn ystyried y Côd wrth ystyried materion addasrwydd i ymarfer a byddwn yn ymchwilio i unrhyw achos honedig o dorri'r Côd.

Gwnaethoch gadarnhau eich bod wedi darllen a deall y Côd wrth i chi gofrestru. Mae'r Côd a dolenni i'r ap symudol ar ein gwefan.

Rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol:

1. Parchu safbwyntiau a dymuniadau, a hyrwyddo hawliau a buddiannau, unigolion a gofalwyr.
2. Ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion a gofalwyr.
3. Hyrwyddo llesiant, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr tra'n eu cefnogi i gadw'n ddiogel.
4. Parchu hawliau unigolion tra'n ceisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidio eu hunain na phobl eraill.
5. Ymddwyn gydag uniondeb a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn gofal cymdeithasol.
6. Bod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau.
7. Yn ogystal ag adrannau 1-6, os ydych yn gyfrifol am reoli neu arwain staff, mae'n rhaid i chi ymgorffori'r Côd yn eu gwaith.

Addasrwydd i ymarfer

Addasrwydd i ymarfer – beth mae'n ei olygu? Mae addasrwydd i ymarfer yn golygu bod gan weithiwr y sgiliau, y wybodaeth, y cymhwysedd a'r cymeriad priodol sydd eu hangen i ymarfer yn y sector gofal **cymdeithasol.**

Byddwn yn ymchwilio i unrhyw achosion lle bo addasrwydd person i ymarfer yn cael ei gwestiynu. Gall hyn gynnwys digwyddiadau lle bo ymddygiad person cofrestredig wedi cael effaith negyddol ar lesiant a diogelwch unigolyn neu'r proffesiwn. Gall hyn gynnwys materion nad ydyn nhw'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymarfer proffesiynol.

Paneli addasrwydd i ymarfer

Fel arfer, cynhelir gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn gyhoeddus.

Pa wybodaeth sydd ar ein gwefan ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer?

Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth am rybuddion, cytundebau a diddymiadau trwy gytundeb â'n swyddogion addasrwydd i ymarfer. Mae hefyd yn cynnwys sancsiynau a chanlyniadau ein gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer.
gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon

Cyhoeddir manylion canlyniadau gwrandawiadau cyhoeddus ar ein gwefan am gyfnod penodedig o dan gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/gwrandawiadau-i-ddod

Ar ôl i wareidiad ddod i ben, caiff y rhesymau eu tynnu oddi ar y wefan ond mae'r penderfyniad yn aros am gyfnod amhenodol.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer yn gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon